**EITEM AR YR AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19 Rhagfyr 2011**

## POLISI PENSIWN YN ÔL DISGRESIWN

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn ar gyfer argymell gwelliant i bolisi a benderfynwyd yn wreiddiol yn 1998 yng ngoleuni gwelliannau ôl-ddilynol i'r Rheoliadau llywodraethol ers 1997.

## Cyflwyniad

2 Yn 1998, roedd angen i'r Awdurdod wneud penderfyniadau am nifer o bolisïau disgresiwn a oedd yn ymwneud yn bennaf â'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Trefniadau Pontio) 1997 fel yr oeddent bryd hynny. Roedd un o'r polisïau yn ymwneud â Rheoliad 31, ac mae'r polisi a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn Atodiad A. Erbyn hyn, mae'r sefyllfa yn cael ei llywodraethu gan Reoliad 30 o Reoliadau Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007, a dylai'r polisi cyfredol fod wedi cael ei adolygu o'r herwydd. Gan nad oedd angen ei ddefnyddio, ni chododd y mater o'i adolygu.

3 Fodd bynnag, gan fod gweithiwr sy'n aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) wedi gofyn am gael ymddeol yn gynnar a chael mynediad at ei bensiwn, mae Cronfa Bensiynau Clwyd wedi awgrymu y dylid adolygu'r polisi disgresiwn, a hynny nid yn unig oherwydd bod amser wedi mynd heibio ond hefyd oherwydd bod y Rheoliadau wedi cael eu hadolygu yn y cyfamser. O ganlyniad i hynny, argymhellir bod yr Awdurdod yn cymeradwyo polisi disgresiwn newydd, a hynny fel y telerau a nodir yn Atodiad B.

4 Mae’r broses ychwanegol ar gyfer penderfynu ac sy’n ymwneud â’r Prif Swyddog Tân a’r Dirprwy Brif Swyddog Tân wedi cael ei hychwanegu er mwyn ystyried newidiadau eraill yn y rheolau pensiwn pryd y gallai deiliaid swyddi fod yn aelodau o’r CPLlL.

5 Bydd 30 niwrnod o ‘gyfnod aros’ cyn y gallai unrhyw benderfyniad dan y polisi disgresiwn ddod yn effeithiol. Bydd hyn yn caniatáu amser i roi gwybod i’r Undebau Llafur cydnabyddedig am y newid i’r polisi disgresiwn.

6 Bydd angen adolygu polisïau disgresiwn eraill a gymeradwywyd yn 1998, a byddant yn destun adroddiad pellach.

**ARGYMHELLIAD**

7 Bod yr Aelodau’n cymeradwyo’r polisi disgresiwn sydd yn Atodiad B mewn perthynas ag Adran 30 o Reoliadau Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007.

**Atodiad A**

**RHEOLIADAU CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU PONTIO) 1997**

**DATGANIAD O BOLISI YN YMWNEUD AG ARFER SWYDDOGAETHAU DISGRESIWN**

**SEFYDLIAD: GWASANAETH TÂN GOGLEDD CYMRU**

**Rheoliad 31** **Dewis talu pensiwn yn gynnar (Aelodau dan 60 mlwydd oed)**

*Mae dewis derbyn taliad buddion yn gynnar gan aelod sy'n 50 neu drosodd ond dan 60 mlwydd oed yn aneffeithiol heb gydsyniad y cyflogwr neu'r cyn-gyflogwr.*

*Os nad yw oedran a chyfanswm aelodaeth yr aelod yn bodloni'r rheol 85 mlynedd, mae'r buddion yn agored i ostyngiad actiwaraidd.*

*Gall cyflogwr benderfynu ar sail dosturiol y dylid talu buddion heb eu lleihau.*

**Manylion y Polisi sy'n ymwneud â Phenderfynu**

Caiff pob cais ei ddyfarnu yn gyfartal a theg yn ôl ei haeddiant ei hun, ac ni fydd y disgresiwn hwn yn cael ei arfer ond mewn achosion lle gellir dangos ei fod er lles yr Awdurdod. Caiff y disgresiwn ei arfer gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân.

O ran y posibilrwydd o dalu buddion heb eu lleihau ar sail dosturiol, bydd pob achos yn cael ei benderfynu yn ôl ei haeddiant ei hun, gan ystyried amgylchiadau'r ymgeisydd yn y dyfodol, yn gyffredinol a phosib. Y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd fydd yn penderfynu ar y disgresiwn hwn.

Dyddiad: .....................................................
Ardystiwyd gan: ..........................................
Dynodiad: ..................................................
Ar ôl ei chwblhau, dychweler at:
Adran Bersonél, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, Ffordd y Glannau, y Rhyl, Sir Ddinbych LL18 3PL

**LOCAL GOVERNMENT PENSION SCHEME (TRANSITIONAL PROVISIONS) REGULATIONS 1997**

STATEMENT OF POLICY CONCERNING EXERCISE OF DISCRETIONARY FUNCTIONS

ORGANISATION: NORTH WALES FIRE SERVICE

Regulation 31. Elections for early payment of pension (Members under age 60)

*An election by a member aged 50 or over but under 60 to receive early payment of benefits is not effective without the consent of the employer or former employer.*

*If the age and total membership of the member do not satisfy the 85 year rule the benefits are subject to actuarial reduction.*

*An employer may determine on compassionate grounds that unreduced benefits should be paid.*

**Details of Policy Concerning Resolution**

Each request will be judged equally and fairly on its own merits and this discretion will only be exercised in cases where it can be demonstrated that it is in the interests of the Authority. This discretion will be exercised by the Chairman and the Vice Chairman in consultation with the Chief Fire Officer.

Regarding the possible payment of unreduced benefits on compassionate grounds each case will be determined on its own merits taking account of the prevailing and possible future circumstances of the applicant. Determination of this discretion will be exercised by the Chairman and Vice Chairman.

Date: ..........................................................................

Certified by: ..............................................................

Designation: ...............................................................

When complete please return to:

Personnel Department, North Wales Fire Service, Coast Road, Rhyl, Denbighshire LL18 3PL

**Atodiad B**

## Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007

DATGANIAD O BOLISI YN YMWNEUD AG ARFER SWYDDOGAETHAU DISGRESIWN

SEFYDLIAD: AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Rheoliad 30 Dewis talu pensiwn yn gynnar (Aelodau dan 60 mlwydd oed)

*Mae dewis derbyn taliad buddion yn gynnar gan aelod sy'n 55 neu drosodd ond dan 60 mlwydd oed yn aneffeithiol heb gydsyniad yr awdurdod sy'n cyflogi neu'r awdurdod oedd yn cyflogi.*

*Gall yr Awdurdod benderfynu, ar sail dosturiol, y dylid talu buddion heb eu lleihau.*

### Manylion y Polisi sy'n ymwneud â Phenderfynu

Caiff pob cais ei ddyfarnu yn gyfartal a theg yn ôl ei haeddiant ei hun, ac ni fydd y disgresiwn hwn yn cael ei arfer ond lle gellir dangos trwy achos busnes ei fod er lles yr Awdurdod.

Bydd y posibilrwydd o dalu buddion heb eu lleihau ar sail dosturiol hefyd yn cael ei ddyfarnu'n gyfartal a theg, gan ystyried yr amgylchiadau cyffredinol a phosib yn y dyfodol sy'n ymwneud â'r achos dan sylw.

Penderfynir ar y disgresiwn gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân ac eithrio yn achos cais(ceisiadau) yn dod gan y Prif Swyddog Tân neu'r Dirprwy Brif Swyddog Tân os ydynt yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn yr achos hwn, penderfynir ar y disgresiwn gan yr Awdurdod Tân ac Achub.